DESIGN
COMMISSION
FOR WALES
COMISIWN
DYLUNIO
CYMRU

# Dylunio ar gyfer adeiladau tal

Ebrill 2025

# Rhagarweiniad

Mae Comisiwn Dylunio Cymru o'r farn y gall adeiladau tal sydd wedi eu dylunio'n dda mewn lleoliadau priodol wneud cyfraniad cadarnhaol at ansawdd lle. Fodd bynnag, gwyddom fod effaith unrhyw adeilad tal yn sylweddol ac o'r herwydd, rhaid iddo fod o'r ansawdd pensaernïol uchaf a bod yn rhan o gyfansoddiad trefol cydlynol.

Mae'r ddogfen hon yn nodi disgwyliadau'r Comisiwn ar gyfer adeiladau tal arfaethedig.

Mae cyd-destun yn hollbwysig wrth ystyried dyluniad adeiladau tal, felly ni all y canllaw hwn fod yn rhagnodol gan y bydd pob achos yn wahanol. Nid yw hwn yn ganllaw ar ble byddai dylunio adeiladau tal yn briodol – er y byddem yn disgwyl gweld rhyw fath o ddadansoddiad neu arweiniad sy'n nodi'r lleoliadau gorau. Mae'r canllaw hwn, at ei gilydd, yn tynnu sylw at ystyriaethau allweddol ar gyfer datblygu ac asesu cynigion ar gyfer adeiladau tal.

Dylai'r gwaith o ddatblygu'r dyluniad gael ei gofnodi'n ofalus ar gyfer cleientiaid a rhanddeiliaid ac ar gyfer unrhyw gyflwyniad sy'n cael ei wneud wrth ymgysylltu â'r Comisiwn drwy ei wasanaeth Adolygu Dyluniadau, ac mewn unrhyw Ddatganiad Dylunio a Mynediad sy'n cyd-fynd â chais cynllunio.

Mae rhai awdurdodau cynllunio lleol wedi mabwysiadu eu canllawiau eu hunain ar adeiladau tal, fel Canllawiau Cynllunio Atodol, y dylid troi atynt hefyd ar gyfer ystyriaethau sy'n benodol i'r ardal leol.

Rydym yn croesawu ac yn annog ymgysylltu cynnar a'r cyfle i roi sylwadau a mewnbwn i gynigion ar gyfer adeiladau tal yn gynnar yn y broses ddylunio, ymhell cyn i gais cynllunio gael ei gyflwyno.

Mae rhagor o wybodaeth am sut i ymgysylltu â'r Comisiwn ar gael yma:

- Cefnogaeth I Gleientiaid
- Ein Gwasanaeth Adolygu Dyluniadau

Bydd yr ystyriaethau allweddol a ganlyn yn eich helpu i baratoi a llywio deialog yn ystod yr Adolygiad Dylunio neu drafodaethau cynnar Cymorth i Gleientiaid.

# Beth yw ystyr 'tal'?

Ni ellir diffinio adeilad tal ar sail ei uchder neu nifer ei loriau, gan fod yr hyn sy'n cael ei ystyried yn adeilad tal yn dibynnu ar y lleoliad. Er enghraifft, fe allai adeilad pum llawr gael ei ystyried yn 'dal' os yw'r adeiladau o'i gwmpas yn adeiladau deulawr yn bennaf. Mae'r pwyntiau a godir yn y ddogfen hon yn berthnasol i bob adeilad yr ystyrir ei fod yn dal yn ei gyd-destun.

Mae polisi cynllunio cenedlaethol yn hyrwyddo datblygiadau sy'n cynyddu dwysedd poblogaeth ein trefi a'n dinasoedd. *Yn y ddogfen Cymru'r Dyfodol: Cynllun Cenedlaethol 2040* dywedir y dylai datblygiadau newydd mewn ardaloedd trefol gael eu hadeiladu ar ddwysedd trefol o 50 annedd yr hectar o leiaf, sy'n ddigon i gynnal trafnidiaeth gyhoeddus a chyfleusterau lleol, gyda dwyseddau uwch mewn lleoliadau mwy canolog a hygyrch. Mae'r datblygiadau dwysedd canolig hyn wedi cael eu disgrifio fel 'y Canol Coll' a gellir eu cyflawni gydag adeiladau graenus, canolig eu maint, sy'n llenwi olion troed adeiladau bach a chanolig, fel tai teras, tai trefol, tai strydoedd pengaead, a blociau bach o fflatiau.

### Y Canol Coll



# Polisi a Chanllawiau Cynllunio

Dylai polisïau a chanllawiau cynllunio cenedlaethol a lleol fod yn sail i bob cynnig dylunio. Gallai adeiladau tal gael effaith y tu hwnt i gwmpas uniongyrchol y safle, yn enwedig ar olygfeydd o bwyntiau allweddol; ar ardaloedd cadwraeth ac, o bellter, ar y cyd-destun treflun a thirwedd a allai gynnwys tirweddau gwledig gwarchodedig/dynodedig. Dylid cynnal asesiad o'r dirwedd a'r effaith weledol yn unol â chanllawiau cydnabyddedig.

Yn absenoldeb canllawiau lleol penodol, mae'n bosibl y bydd angen i ymgeiswyr gefnogi cynigion sydd ag astudiaethau cyd-destunol mwy helaeth, neu ystyried eu datblygu fel rhan o astudiaeth uwchgynllun mwy, drwy drafod â'r awdurdod cynllunio lleol.

## Archwilio Strategaethau Amgen

Rhaid i Gomisiwn Dylunio Cymru fod yn fodlon mai adeilad tal yw'r ymateb mwyaf priodol i friff y cleient, y safle a'r cyd-destun. Dylid dangos cofnod o esblygiad dyluniad a phrofi cynlluniau amgen fel rhan o'r broses ddylunio, a dylid ei gyfleu'n glir yn y Datganiad Dylunio a Mynediad ac mewn unrhyw ddeunydd ychwanegol y gofynnir amdano at ddibenion Adolygu Dylunio. Dylai hyn gadarnhau'r rhesymau pam mae adeilad tal yn briodol a pha ddewisiadau eraill sydd wedi eu heithrio. Edrychwch ar ein canllaw ar arferion da:

- Datganiadau Dylunio a Mynediad yng Nghymru: Pam, Beth a Sut

## Dadansoddiad o'r Safle a'r Cyd-destun

Dylid ymestyn y dadansoddiad o'r safle a'r cyd-destun ar gyfer adeilad tal y tu hwnt i'r hyn sy'n arferol a chynnwys yr ardal lle gellid ystyried bod yr adeilad yn cael effaith weledol. Fodd bynnag, ni ddylid ystyried golygfeydd pell ar draul dadansoddiad trylwyr o'r safle a'i gyd-destun uniongyrchol.

Gan hynny, dylai dadansoddiad trylwyr o'r safle a'r cyd-destun fynd i'r afael â'r canlynol:

- Safbwyntiau pwysig y dylid eu diogelu
- Y nenlinell bresennol a sut byddai adeilad newydd yn effeithio arno
- Sut mae'r safle'n ymwneud ag adeiladau cyfagos
- Y rhyngweithio rhwng yr adeilad a'r amgylchfyd cyhoeddus – gan gynnwys y palmentydd a'r strydoedd cyfagos, a strydoedd, sgwariau, parciau a mannau agored eraill cyfagos
- Perthynas y safle â'r treflun a'r dirwedd ehangach
- Dwysedd yr ardal gyfagos a llif tebygol y cerddwyr a'r traffig a gynhyrchir
- Effaith y microhinsawdd.

Mae'r Comisiwn yn disgwyl gweld dadansoddiad cynhwysfawr wedi ei lunio o'r cyd-destun, gan gynnwys cynlluniau a thrychiadau (ar raddfeydd priodol) a darluniau cywir o bersbectif sy'n nodi golygfeydd pwysig sy'n edrych tuag at y safle ac oddi wrtho. Rhaid i'r lluniadau hyn ddangos a fyddai adeilad tal yn amharu ar olygfeydd pwysig presennol, a sut byddai'n effeithio ar olygfa'r nenlinell o safbwyntiau arwyddocaol. Yn bwysicaf oll, rhaid iddo sefydlu sut bydd yr adeilad yn rhyngweithio â'r amgylchfyd cyhoeddus ar lefel y ddaear a dangos ei fod wedi gwella'r profiad i gerddwyr.

Edrychwch ar ein canllaw ar arferion da:

- Canllawiau ar Ddadansoddi Safleoedd a Chyd-destun: Pennu gwerth safle

## Pobl a Chymuned

Dylai dyluniad adeiladau tal sicrhau bod gan y bobl sy'n byw yno gartref da, gyda digon o le, golau naturiol, awyru a mannau tawel. Mae'r Comisiwn Dylunio yn annog dylunio adeiladau tal i ddarparu ar gyfer fflatiau dwy ochr, gan eu bod yn gallu darparu gwell golau naturiol, awyru croes a mannau tawelach, ac nid yw'n annog fflatiau un ochr, nad yw'n golau dydd yn eu cyrraedd, sydd mewn perygl o orboethi ac sydd â goblygiadau o ran ffenestri'r adeiladau.

Dylai'r gymuned leol fod yn rhan o'r gwaith o ddatblygu'r cynigion. Mae angen i'r Comisiwn Dylunio fod yn fodlon bod y strategaeth ymgysylltu'n ceisio cyrraedd cymdogion masnachol a phreswyl uniongyrchol ac anghysbell y bydd y cynigion yn effeithio arnynt a bod y cynigion wedi cael eu cyflwyno, neu y byddant yn cael eu cyflwyno, ar ffurf sy'n galluogi cynnwys y cyhoedd yn effeithiol. Dylai'r deunydd gynnwys manylion am effaith y cynnig ar yr amgylchfyd cyhoeddus cyfagos. Dylid hefyd ddarparu tystiolaeth o sut mae aelodau o'r cyhoedd wedi cymryd rhan cyn cyflwyno ymgynghoriad cyn ymgeisio a chais cynllunio, neu sut byddant yn gwneud hynny.

## Cynaliadwyedd

Dylai cynaliadwyedd fod yn ystyriaeth annatod yn y dull dylunio o'r cychwyn cyntaf. Bydd angen dangos strategaeth cynaliadwyedd a pherfformiad y cynnig, gan gynnwys cyllidebau carbon, carbon corfforedig a gweithredol, targedau ynni, perfformiad amgylcheddol, ynni adnewyddadwy, enillion solar goddefol, gorboethi, deunyddiau, a'r gallu i ailgylchu.

Mae dyheadau Llywodraeth Cymru ar gyfer datblygu cynaliadwy wedi eu nodi ym *Mholisi Cynllunio Cymru a Nodiadau Cyngor Technegol 12: Dylunio*. Byddai Comisiwn Dylunio Cymru yn disgwyl i adeilad tal gyrraedd y lefelau effeithlonrwydd ynni a chynaliadwyedd uchaf posibl a chael ei argyhoeddi o hyfywedd economaidd a chymdeithasol y cynllun. Edrychwch ar ein canllaw arferion da:

— Canllaw Ymarfer: Cynllunio ar gyfer adeiladau cynaliadwy: canllawiau

## Ansawdd Dylunio

Mae'n anochel y bydd adeilad tal yn dod yn dirnod a bydd angen i'r cynigion ddangos ansawdd a manylder dylunio sydd o'r radd flaenaf. Dylai'r ansawdd hwn fod yn amlwg ar ffurf, deunyddiau, manylion, hirhoedledd a chynaliadwyedd yr adeilad ac ymestyn i'r tir cyhoeddus cysylltiedig o gwmpas yr adeilad.

Bydd y cymunedau lle saif adeilad tal yn chwilio am ddyluniad o'r ansawdd uchaf, a hynny'n haeddiannol. Dylai tystiolaeth o ymrwymiad i'r ansawdd uchaf fod yn glir yn y cyflwyniad.
Gellir cyfeirio at gynseiliau adeiledig, drwy ddefnyddio ffotograffau ac, yn fwy cymhellol, lluniadau dadansoddol cymharol.

## Microhinsawdd

Gall adeiladau tal gael effaith benodol ar y microhinsawdd drwy fwrw cysgod a sianelu gwyntoedd i lefel y ddaear. Dylid cynnal asesiad o effaith yr adeilad tal arfaethedig ar ficrohinsawdd yr ardal gyfagos, gan gynnwys astudiaethau o'r gwynt a chysgodion. Dylid cynnwys y dadansoddiad hwn yn y deunydd, os yw'r cynllun i gael ei gyflwyno i wasanaeth Adolygu Dyluniadau'r Comisiwn Dylunio, er mwyn egluro sut mae'r ystyriaethau hyn wedi cael sylw.

## Rhyngweithio â'r Amgylchfyd Cyhoeddus

Mae'r berthynas rhwng yr adeilad a'r amgylchfyd cyhoeddus, sy'n ei amgylchynu, yn hanfodol er mwyn ei integreiddio'n llwyddiannus i'r ffabrig adeiledig a rhoi'r gofod ar waith.

Dylai ffasadau sy'n wynebu'r cyhoedd gyfrannu'n gadarnhaol at yr amgylchfyd cyhoeddus gyda phennau blaen gweithredol ar lefel y llawr gwaelod, y cymysgedd o ddefnyddiau, lleoliad mynedfeydd a threfniant ffenestri, gan roi ystyriaeth ofalus iddynt. Ni ddylid cael gweddluniau anweithredol gwag ar y llawr gwaelod.

Dylai unrhyw le cyhoeddus o gwmpas yr adeilad fod o ansawdd uchel. Dylai'r gofod mae'r adeilad yn eistedd ynddo gael ei gynllunio'n ofalus i sicrhau bod unrhyw ofod preifat/lled-breifat wedi ei ddiffinio'n dda. Dylai'r gwaith o ddylunio'r amgylchfyd cyhoeddus gael ei lywio gan ymgysylltu â rhanddeiliaid ar y camau cynharaf.

## Trafnidiaeth a Gwasanaethu

Mae rheoli cysylltiadau, dewisiadau teithio, parcio cerbydau a gwasanaethu yn ystyriaethau pwysig ar gyfer adeiladau tal. Mae'r Comisiwn Dylunio yn annog datblygiadau heb geir, llai o ddarpariaeth parcio ceir a mesurau symudedd a rennir lle bo hynny'n briodol.

Rhaid ystyried yn ofalus faint o le parcio sydd i'w ddarparu a sut i'w ddarparu a'i integreiddio'n dda. Byddai'r comisiwn yn disgwyl i unrhyw adeilad tal ddarparu ar gyfer y parcio sydd ei angen arno o dan y ddaear, a'r fynedfa a'r allanfa er mwyn lleihau unrhyw effaith ar yr amgylchedd i gerddwyr. Mae parcio aml-lawr ar lefel y ddaear yn annerbyniol yn gyffredinol oherwydd yr effaith negyddol mae'n ei chael ar yr amgylchedd trefol.

Dylai dadansoddiad trylwyr o drafnidiaeth gynnwys yr effaith ar symudiadau cerddwyr, cysylltiadau â thrafnidiaeth gyhoeddus, cyfleusterau beiciau, a chysylltiadau â llwybrau i gerddwyr a beiciau.

Dylid darparu ar gyfer gofynion gwasanaethu mewn ffordd nad yw'n cael effaith negyddol ar dir y cyhoedd, yn enwedig y prif lwybrau cerdded a mannau cyhoeddus. Byddai hyn yn cynnwys casglu/gwaredu/storio sbwriel, parcio, ystafelloedd trawsnewidyddion ac ati.

## Diogelwch Adeiladau

Mae ystyriaeth gynnar a manwl i ddiogelwch, cysur a diogeledd yn elfennau allweddol o'r camau dylunio cynharaf.

Bwriedir cyflwyno Bil Diogelwch Adeiladau (Cymru) yn 2025 er mwyn cyflwyno dyletswyddau diogelwch tân newydd a fydd yn cael eu datblygu ar gyfer adeiladau preswyl a rhannau preswyl o adeiladau defnydd cymysg.

## Effaith Amgylcheddol

Yn yr un modd â phob datblygiad arwyddocaol, bydd yr awdurdod cynllunio lleol yn penderfynu, yn unol â â'r Rheoliadau Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol, a oes angen asesiad llawn o'r effaith ar yr amgylchedd ai peidio.

## Pryderon Cyffredin

Mae profiad y Comisiwn Dylunio o gynigion ar gyfer adeiladau tal yn nodi rhai heriau cyffredin y mae angen eu datrys drwy'r broses ddylunio.

Dylai cleientiaid a thimau dylunio sicrhau bod y materion hyn yn cael eu hystyried a'u trin yn effeithiol yn y broses ddylunio.

- **Tu blaen gweithredol** – dylai cynigion sicrhau bod y dyluniad yn mynd i'r afael yn gadarnhaol â'r berthynas rhwng yr adeilad a thir y cyhoedd gyda digon o ddiddordeb gweledol, gweithgarwch a gwyliadwriaeth naturiol i greu amgylchfyd cyhoeddus bywiog a diogel.
- **Mannau allanol** – dylid eu diffinio'n glir a'u dylunio'n dda i osgoi unrhyw ofod 'dros ben' a darparu gwahaniaeth clir rhwng mannau cyhoeddus a phreifat.
- **Cynaliadwyedd, carbon a pherfformiad adeiladau** – dylai'r dyluniad gael ei lywio gan strategaeth cynaliadwyedd.
- **Trin ffasadau** – dylid sicrhau bod y cyfrannau, y deunyddiau a'r manylion yn creu eglurder gweledol, diddordeb ac ansawdd priodol o bellter ac yn agos.
- **Trafnidiaeth a pharcio** – dylid cynnwys mynedfeydd ac allanfeydd i barcio ceir mewn ffordd nad yw'n amharu ar ansawdd trefol yr adeilad. Dylai cynigion ystyried y trefniadau ar gyfer casglu a gollwng a sut bydd y gofod yn cael ei reoli.

- **Amwynder preswyl** – dylai'r dyluniad ddarparu amgylchedd byw o ansawdd uchel, gan gynnwys mannau preifat neu gymunedol allanol priodol, y golygfeydd gorau sydd ar gael, ac osgoi edrych dros fannau eraill.
- **Cymysgedd o unedau** – rhaid i'r dyluniad ddarparu digon o hyblygrwydd ar gyfer amrywiaeth o unedau a chyfluniadau, a bodloni gofynion tai fforddiadwy.
- **Fflatiau un ochr** – dylid eu hosgoi er mwyn sicrhau bod gan gartrefi olau naturiol da ac osgoi gorboethi.

## Cyflwyno Cynigion

Mae ein canllawiau Adolygu Dylunio yn nodi'r deunydd a'r wybodaeth y byddem yn disgwyl i gynnig eu cynnwys er mwyn cyfleu'r cynnig dylunio a'r rhesymeg yn ddigonol. Ar gyfer adeiladau tal, dylai hyn gynnwys:

- Cynlluniau sy'n dangos yn glir sut mae'r adeilad yn berthnasol i'r ardal gyfagos
- Adrannau i ddangos lled y stryd i gymhareb uchder yr adeilad
- Gweddluniau i ddangos sut mae'r adeilad yn cwrdd â'r ddaear ac yn ymwneud ag adeiladau cyfagos
- Astudiaethau tri dimensiwn clir a diamwys y gellir eu dilysu
- Modelau i ddangos maint ac effaith yr adeilad arfaethedig ar yr ardal gyfagos
- Darluniau o'r cynllun ar lefel llygad cerddwyr o'r stryd/strydoedd cyfagos ac o'r lleoliadau strategol a nodwyd
- Sylw i ben yr adeilad – gan gynnwys sut bydd y peiriannau'n cael eu cynnwys
- Natur yr effaith, ar lefel y ddaear, ar wasanaethu'r adeilad
- Deunyddiau ac, ar y cam priodol, manylion triniaeth y ffasâd.

DESIGN
COMMISSION
FOR WALES
COMISIWN
DYLUNIO
CYMRU

+44 (0) 29 2045 1964
connect@dcfw.org
www.dcfw.org